# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Trawsfynydd**

**YMCA**
**Trawsfynydd**
**LL41 4SE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**27 Mawrth 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Trawsfynydd wedi'i gofrestru i ofalu am uchafswm o 20 o blant rhwng 2.5 a 4 oed. Y person cofrestredig yw Emma Tomkins. Wendy Davies yw'r person â chyfrifoldeb. Caiff y gwasanaeth ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'n darparu cynnig gweithredol ar gyfer y Gymraeg. Mae'r gwasanaeth ar agor o 9:00pm i 1:00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod tymor yr ysgol.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Mae gan y staff ymagwedd gynnes a chyfeillgar at roi gofal. Mae'r amgylchedd dan do yn canolbwyntio ar y plentyn ac mae'r amgylchedd awyr agored yn hyrwyddo datblygiad corfforol y plant. Mae angen datblygu arwain a rheoli ymhellach.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad blaenorol, cwblhawyd adroddiad ar ansawdd y gofal ond roedd y wybodaeth rheoleiddiol sy'n ofynnol i asesu addasrwydd yr unigolyn i weithio gyda phlant ar goll yn ffeil un aelod o'r staff o hyd.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi gwneud argymhellion mewn perthynas â holiaduron y rhieni; cynllunio camau gweithredu i hyrwyddo gwelliannau pellach i'r gwasanaeth ac atgyweirio cafnau'r toeon.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, yn hyderus ac yn fodlon ac yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth. Maent yn teimlo'n gyfforddus yn eu hamgylchedd ac mae hyn yn hyrwyddo eu hunanhyder a'u datblygiad cymdeithasol. Maent yn mwynhau cydberthynas hapus a gofalgar gyda'r staff a rhoddir sylw i anghenion unigol. Mae'r plant yn cael budd o fynychu'r gwasanaeth ac maent yn cael gofal cynnes a pharchus. Maent yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu, ac maent yn datblygu'n dda drwy ddod yn fwy annibynnol.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i fynegi'r hyn yr hoffent ei wneud ac mae'r staff yn gwrando arnynt.

Mae'r plant yn cael budd o amrywiaeth eang o weithgareddau i ddewis ohonynt a dewis helaeth o adnoddau i gwblhau'r gweithgareddau hyn. Gwelwyd y plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amser cylch ar ddechrau sesiwn y bore lle y gwrandawyd ar eu barn am wahanol bynciau a'u profiadau. Gwelsom y plant yn chwarae yn yr ardaloedd chwarae o'u dewis ac roedd ganddynt ryddid i ddewis unrhyw weithgaredd a newid gweithgareddau os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i fynegi eu hoff bethau a'u cas bethau.

Mae'r plant yn cael budd o'r amgylchedd hamddenol a'r cyfleoedd digonol i fynegi eu hunain. Caiff llais pob plentyn ei barchu ac mae'r staff yn gwrando arnynt.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn fodlon ac yn hapus ac yn siarad â'r staff yn hawdd. Roedd llawer o'r plant yn hyderus ac yn hapus i siarad â'i gilydd ac â'r oedolion.

Gwelsom y gydberthynas gadarnhaol sy'n bodoli rhwng y plant a'r staff, sy'n galluogi'r plant i ddangos parch tuag at eraill a'u ffrindiau. Clywsom y plant yn diolch i'r staff heb unrhyw ysgogiad ac yn cael sgyrsiau diddorol â'i gilydd sy'n creu awyrgylch gymdeithasol. Roedd y plant yn cael eu gwerthfawrogi gan y staff sy'n eu hadnabod yn dda ac roeddent yn eu hannog i sgwrsio am eu teuluoedd, eu bywyd gartref, eu hobïau a'u cyflawniadau.  Roedd y mathau hyn o sgyrsiau yn dangos bod y plant yn gyfforddus yn rhannu gwybodaeth â'r sawl sy'n gofalu amdanynt.

Mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus ac yn fodlon yng ngofal y staff a chânt eu trin â pharch.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ac yn rheoli eu hymddygiad, yn cydweithredu, yn cymryd eu tro ac yn helpu eraill. Maent yn dysgu sut i feithrin cydberthnasau ag eraill.

Mae'r plant yn cael budd o'r anogaeth gyson a rheolaidd ynglŷn ag ymddygiad derbyniol. Roedd y staff yn defnyddio perswâd cadarnhaol, canmoliaeth gyson a lleisiau addfwyn i annog y plant i ddangos ymddygiad derbyniol. Er enghraifft, gwnaeth aelod o'r staff ddefnyddio'r dulliau hyn yn effeithiol gyda phlentyn a oedd yn egnïol a swnllyd yn ystod gweithgaredd grŵp. Clywsom y plant yn cael eu canmol yn rheolaidd am y ffordd roeddent yn rhyngweithio â'i gilydd. Roedd hyn yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad a balchder i'r plant yn yr hyn maent yn ei wneud ac yn eu hannog i ymddwyn mewn ffordd sy'n dderbyniol i eraill.

Caiff y plant eu harwain drwy esiampl dda o'r ffordd i feithrin cydberthynas hapus ac i barchu eraill.

### 1.4 I ba raddau mae’r plant yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu?

Mae'r plant yn mwynhau'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt chwarae ac ymlacio yn fawr, ac yn cymryd rhan lawn yn y gweithgareddau sydd ar gael.

Gwelsom fod yr holl blant yn brysur yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau amrywiol drwy gydol y sesiwn. Roedd amrywiaeth o deganau, gemau a phosau dan do. Chwaraeodd rhai o'r plant â theganau ceir ac roedd eraill yn creu cardiau 'Santes Dwynwen'. Roedd gweithgareddau eraill yn cynnwys – paentio; gweithgareddau yn y pwll tywod: gweithio mewn cegin a gwisgo doli. Gwelsom fod rhai o'r plant yn canolbwyntio ar un gweithgaredd am gyfnod hir o amser cyn gwneud rhywbeth arall. Roedd rhai o'r plant yn chwarae'n hapus ar eu pen eu hunain ac roedd rhai mewn grwpiau. Roedd y plant yn mwynhau'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r staff. Roedd modd i ni siarad â rhai o'r plant a gwnaeth pob un ohonynt ganmol yr amrywiaeth o weithgareddau yn y gwasanaeth, y gofal a'r sylw a gânt gan y staff.

Mae digon o gyfleoedd i'r plant gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau, gyda natur fwy strwythuredig i rai ohonynt. Mae hyn yn cynnal eu diddordeb ac yn ychwanegu at eu mwynhad.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cael cyfleoedd rheolaidd ac amrywiol i ddatblygu yn gymdeithasol a dod yn annibynnol.

Caiff annibyniaeth y plant ei hyrwyddo, gan eu bod yn cael rhyddid i wneud eu penderfyniadau eu hunain, ac yn cael eu cefnogi i chwarae ar eu pen eu hunain a gyda'u cyfoedion. Maent yn cael y cyfle i fynegi eu hoff bethau a'u cas bethau o ran yr hyn yr hoffent ei gael fel byrbryd, ac yn cael eu hannog i lanhau ar ôl bwyta. Gwnaethant frwsio eu

dannedd yn dilyn eu byrbryd heb unrhyw gymorth gan y staff. Atgoffwyd pob un o'r plant i olchi eu dwylo a gwnaethant hynny yn annibynnol.

Mae'r plant yn cael anogaeth effeithiol i fod yn annibynnol ac mae hygyrchedd yr adnoddau yn cyfrannu at hyn.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn meithrin cydberthnasau cynnes â'r plant ac maent yn defnyddio dull gofalgar o weithredu. Maent yn gyfarwydd â pholisïau a gweithdrefnau allweddol. Caiff y plant ofal mewn amgylchedd diogel. Maent yn rheoli rhyngweithiadau'r plant yn dda, ac mae chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn cael eu hyrwyddo.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau diogelwch ac iechyd y plant.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gyfarwydd â'r polisi amddiffyn plant ac yn gwybod pa gamau i'w cymryd os byddent yn poeni am blentyn yn eu gofal. Mae'r aelodau o'r staff wedi ennill y cymwysterau gofynnol mewn hylendid bwyd. Gwelsom eu bod yn gosod arfer da ar waith mewn perthynas â pharatoi byrbrydau iach a darparu dŵr ffres drwy gydol y sesiwn, a sicrhau bod y byrddau yn cael eu glanhau cyn amser byrbryd. Roedd gan sawl un o'r plant annwyd ar ddiwrnod ein hymweliad, a gwnaeth y staff annog rhai ohonynt i roi eu llaw dros eu cegau wrth besychu.

Mae'r staff yn cynnal ac yn cofnodi ymarferion tân rheolaidd a chânt eu cofnodi'n briodol. Caiff damweiniau, anafiadau a salwch eu cofnodi.

Mae'r staff yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn llwyddo i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol bob amser, ac yn trin y plant â pharch. Maent yn modelu ymddygiad cadarnhaol sy'n rhoi enghreifftiau clir i blant o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn ymddygiad derbyniol.

Mae'r staff wedi meithrin cydberthynas gynnes â'r plant, sy'n creu amgylchedd cyfeillgar yn y clwb. Maent yn sicrhau bod gan y plant ryddid i ymlacio a mwynhau eu hunain. Gwnaethom glywed y staff yn sgwrsio â'r plant am eu teuluoedd a'u hobïau a dangos diddordeb yn yr hyn roedd gan y plant i'w ddweud. Mae hyn yn arwain at blant sy'n hyderus i sgwrsio â'i gilydd a hefyd â ni. Roedd y staff yn rheoli ymddygiad mewn ffordd ofalgar. Gwelsom ymddygiad gwych drwy gydol ein hymweliad.

Mae'r staff wedi llwyddo i osod ffiniau ymddygiad addas gan roi rhyddid i'r plant ymlacio a bod yn hapus ar yr un pryd. Roedd y staff hefyd yn arwain drwy esiampl.

## 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn darparu amgylchedd cymhellol lle gall y plant ymlacio a derbyn gofal yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o anghenion unigol y plant ac yn ymateb yn briodol.

Roedd y staff yn darparu adnoddau digonol i'r plant sy'n addas ar gyfer eu hoedran. Roeddent yn eu hannog i chwarae, ac yn eu cefnogi yn ôl yr angen. Roedd y staff yn darparu awyrgylch hamddenol i'r plant a oedd yn eu galluogi i ddewis o ystod o weithgareddau i hyrwyddo eu dysgu a'u datblygiad ac a oedd o ddiddordeb iddynt. Roedd y staff yn canmol y plant am eu cyflawniadau yn rheolaidd. Clywsom y staff yn defnyddio ymadroddion megis "da iawn" a "gwych" yn aml. Roedd y staff hefyd yn rhoi'r gair Cymraeg cywir i'r plant a oedd yn dysgu Cymraeg os oeddent yn cael trafferth cofio geiriau unigol. Roedd y staff yn chwarae rhan flaenllaw mewn gwaith mwy dychmygus, gan gynnwys defnyddio pypedau megis 'Dewin' a 'Doti'.

Mae'r staff yn darparu amgylchedd a gweithgareddau ysgogol i'r plant sy'n hyrwyddo eu datblygiad a'u llesiant ac maent yn ymateb i anghenion unigol yn llwyddiannus.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr wedi sicrhau bod gweithdrefnau diogelwch ar waith i sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd sy'n ddiogel ac yn lân. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn gyfarwydd â gweithdrefnau iechyd a diogelwch.

### Ein canfyddiadau

#### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Roedd digon o le i'r plant chwarae dan do, ond roedd yr ardal awyr agored yn eithaf cyfyng. Nid oedd llawer o lefydd storio ychwaith.

Gwnaeth yr arweinwyr sicrhau bod gweithdrefnau priodol ar waith i atal mynediad anawdurdodedig i'r safle. Er enghraifft, wrth gyrraedd, roedd rhaid i ni gnocio ar y drws i gael mynediad, a gofynnwyd i ni ddarparu prawf adnabod a llofnodi'r llyfr ymwelwyr cyn i ni gael mynediad i'r brif ystafell. Cyn mynd allan i chwarae, gwnaeth y staff atgoffa'r plant i gyfyngu eu chwarae i ardal y glaswellt ffug ac osgoi ardal y glaswellt naturiol. Roedd y trefniant hwn yn galluogi'r plant i chwarae mewn amgylchedd diogel. Mae angen gwneud rhywfaint o waith ailwampio yn yr adeilad. Gwelsom fod angen atgyweirio cafnau'r toeon a pheipen ddŵr.

Mae'r arweinwyr wedi llwyddo i greu amgylchedd sy'n ddiogel i'r plant.

#### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd o ansawdd da sy'n addas ar gyfer y plant. Mae digon o le y tu mewn ac amrywiaeth eang o adnoddau i ddiwallu anghenion unigol.

Mae'r clwb yn cwrdd mewn un ystafell fawr lle y caiff y rhan fwyaf o'r adnoddau eu storio sy'n golygu eu bod yn hawdd i'r plant gael gafael arnynt. Mae digon o le i'r holl weithgareddau yr oedd y plant yn cymryd rhan ynddynt. Y tu allan, mae ardal y glaswellt ffug yn galluogi'r plant i chwarae yno, hyd yn oed ar ôl tywydd gwael.

Mae'r arweinwyr wedi llwyddo i ddarparu amrywiaeth eang o adnoddau ac amgylchedd addas sy'n annog y plant i ymlacio a dysgu.

#### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar?

Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd da o'r cyfarpar a dodrefn sy'n addas ar gyfer oedran y plant, ac o ansawdd da.

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth o adnoddau o ansawdd da ar gyfer y plant. Roedd byrddau a chadeiriau o ansawdd da ac ar lefel isel hefyd ar gael a oedd yn briodol ar gyfer oedran y plant ac yn hybu annibyniaeth y plant. Roedd amrywiaeth dda o deganau ac

amrywiaeth eang o adnoddau dysgu. Roeddent yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd yr adnoddau yn gyffredinol yn heriol ac yn ysgogol, gan alluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau. Roedd yr adnoddau awyr agored yn gyfyngedig, ac roedd tywydd gaeafol wedi effeithio arnynt. Nid oeddem yn gallu asesu ansawdd y beiciau ac adnoddau eraill, gan eu bod yn cael eu storio ar ddiwrnod ein hymweliad.

Mae'r arweinwyr wedi darparu adnoddau helaeth i sicrhau bod y plant yn mwynhau eu hunain, a'u bod o ansawdd sy'n sicrhau diogelwch y plant

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r person cofrestredig a'r person â chyfrifoldeb yn ymwybodol o'r rhan fwyaf o'u cyfrifoldebau rheoliadol. Maent yn sicrhau bod y staff yn mynychu cyrsiau hanfodol a pherthnasol i wella a datblygu'r ddarpariaeth.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr wedi sicrhau bod y rhan fwyaf o'r polisïau a'r gweithdrefnau yn fanwl ac yn drefnus a'u bod yn cynnwys y wybodaeth briodol.

Mae'r person â chyfrifoldeb yn gyfarwydd â pholisïau a gweithdrefnau a chaiff y rhain eu hymgorffori mewn ymarferion dyddiol. Mae'r arweinwyr yn rhoi datganiad o ddiben cynhwysfawr a llawlyfr i rieni, a roddir i'r rhieni fel rhan o becyn gwybodaeth cyn i'w plant ddechrau. Mae'r dogfennau hyn yn darparu digon o wybodaeth i alluogi rhieni i wneud dewis gwybodus ynghylch y ddarpariaeth. Mae'r arweinwyr yn cefnogi'r staff i fynychu cyrsiau i sicrhau eu bod yn gyfarwydd ag arferion cyfredol a'u bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf.

Mae'r arweinwyr yn rhannu ffyrdd y gall disgwyliadau uchel sicrhau gwelliannau gydag eraill. Caiff timau staff eu hadeiladu'n effeithiol, ond ni welsom unrhyw gofnodion ysgrifenedig o berfformiad gwael yn cael eu herio'n gadarn, am nad oedd unrhyw drefniadau goruchwylio staff wedi'u rhoi ar waith.

Gwelsom y staff yn cydweithredu'n dda fel tîm ac roeddent yn cefnogi ei gilydd. Gwelsom y staff yn cymryd drosodd o gydweithwyr yn ôl y gofyn, er enghraifft, os oedd angen i aelod o staff siarad â rhiant, roedd aelod arall o staff yn parhau â'r gweithgareddau i'r plant.

Mae angen i'r arweinwyr osod newidiadau ar waith er mwyn gwella effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn defnyddio gweithdrefnau hunanwerthuso ac maent yn gallu cynllunio gwelliannau i'r gwasanaeth.

Mae'r arweinwyr wedi cynnal hunanwerthusiad o'r gwasanaeth ac wedi cynhyrchu adroddiad ar eu canfyddiadau. Mae'r adroddiad yn gynhwysfawr ac yn rhoi darlun clir o bopeth a oedd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf a hefyd unrhyw gynlluniau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Aethpwyd i'r afael â nifer o'r meysydd i'w gwella a nodwyd. Gwelsom fod gwybodaeth o holiaduron rhieni a phlant wedi cael ei chynnwys yn yr adroddiad. Cytunodd yr arweinwyr y dylent roi'r cyfle i'r rhieni a'r plant a oedd yn defnyddio'r

gwasanaeth ar hyn o bryd i gwblhau holiadur boddhad. Fodd bynnag, nid oedd yr holl gryfderau a'r gwendidau a nodwyd yn yr adolygiad o ansawdd y gofal wedi cael eu troi yn gynllun gweithredu cadarn. Byddai hyn yn sicrhau y caiff datblygiadau pellach eu cwblhau yn amserol.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio gweithdrefnau hunanwerthuso, ond nid yw'r gwaith cynllunio ar gyfer gwella bob amser yn effeithiol.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn brofiadol ac yn rheoli'r staff a'r adnoddau yn effeithiol y rhan fwyaf o'r amser

Cafodd cyfrifoldebau eu dirprwyo pan oedd hynny'n briodol. Cafodd y staff eu cefnogi'n dda ac roeddent yn cydweithredu'n dda fel tîm.

Gwnaethom arolygu ffeiliau'r holl staff a gwelsom nad oedd y ffeiliau yn cynnwys yr holl wybodaeth reoleiddiol sy'n ofynnol.

Nid oedd unrhyw drefniadau goruchwylio staff ar waith, ac ni chafodd cyfweliad arfarnu ei drefnu ar gyfer un aelod o'r staff. Gwelsom nad oedd gan rai aelodau o'r staff ddau eirda yn eu ffeiliau.

Roedd ffeiliau'r holl staff yn cynnwys tystiolaeth o hyfforddiant diweddar a pherthnasol mewn meysydd megis hylendid bwyd; cymorth cyntaf pediatrig a diogelu. Roedd meysydd lle'r oedd angen datblygu staff ymhellach yn galluogi'r staff i wella profiadau'r plant.

Mae angen i arweinwyr wella eu trefniadau presennol er mwyn rheoli staff ac adnoddau'n effeithiol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr wedi sefydlu perthynas dda â'r rhieni, gyda llwybrau cyfathrebu rheolaidd ac agored er budd llesiant y plant.

Gwnaethom siarad â'r rhieni a ddaeth i gasglu eu plant, a gwnaethant siarad yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth. Gwnaethant hefyd ganmol y staff, yn ogystal â'r gweithgareddau a'r byrbrydau a ddarperir ar gyfer y plant. Roeddent yn gadarnhaol iawn am y wybodaeth y maent yn ei derbyn ynglŷn â'u plentyn gan ddweud eu bod yn cael digon o gyfleoedd i drafod unrhyw broblemau â'r staff bob dydd.

Roedd cysylltiadau cadarn rhwng y gwasanaeth a'r ysgol gynradd leol. Er enghraifft, gwnaethant rannu gwybodaeth am y plant yn symud o'r gwasanaeth i'r ysgol. Yn ogystal â hyn, roeddent wedi cydweithio ar fenter y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r gydberthynas agos â'r rhieni yn galluogi'r staff a'r arweinwyr i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r plant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Roedd dau faes o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad blaenorol

- nid oedd adroddiad sicrhau ansawdd ddim ar gael;
- roedd y wybodaeth reoleiddiol sy'n ofynnol i asesu addasrwydd yr unigolyn i weithio gyda phlant ar goll yn ffeil un aelod o'r staff.

### 5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn

Gwnaethom hysbysu'r person â chyfrifoldeb nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â

- Rheoliad 29(3)(a) o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, am nad oedd y staff yn cael goruchwyliaeth briodol ac am nad oedd un aelod o'r staff wedi cael ei arfarnu;
- Rheoliad 28(2)(a) – sy'n ei gwneud yn ofynnol bod dau eirda cyflogaeth ar gyfer pob aelod o'r staff.

  Ni wnaethom gyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio gan na wnaethom nodi fod hyn yn cael effaith ar lesiant y plant ar yr achlysur hwn. Mae'n rhaid i'r person cofrestredig ymdrin â'r materion hyn.

### 5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

Dylai'r arweinwyr ystyried y canlynol -

- Sicrhau yr eir i'r afael â gwelliannau gofynnol a nodwyd yn yr adroddiad adolygiad o ansawdd y gofal yn brydlon gyda dyddiadau targed clir ar gyfer eu cwblhau;
- Rhoi'r cyfle i'r rhieni a'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd i gwblhau holiadur boddhad;
- Atgyweirio cafnau'r toeon a pheipen ddŵr sy'n casglu dŵr glaw.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Gwnaethom gynnal yr arolygiad dirybudd hwn fel rhan o'n hamserlen flynyddol. Gwnaethom gynnal yr arolygiad rhwng 9:45am a 12:45pm ddydd Iau 24 Ionawr 2019.

- Cynhaliodd un arolygydd yr arolygiad yn ystod yr amseroedd a nodwyd;
- Gwnaethom archwilio amrywiaeth eang o gofnodion, gan gynnwys y Datganiad o Ddiben, polisïau a ffeiliau staff;
- Gwnaethom arsylwi ar weithgareddau'r plant, a'r gofal a roddir iddynt dan do ac yn yr awyr agored;
- Gwnaethom archwilio'r safle ac ansawdd y teganau a'r cyfarpar;
- Gwnaethom siarad â'r plant, y person â chyfrifoldeb ac aelodau eraill o staff, a rhieni.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal y Tu Allan i'r Ysgol** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Emma Tomkins** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Wendy Davies** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **20** |
| **Ystod oedran y plant** | **o dan 12 oed** |
| **Oriau agor** | **9:00am i 1:00pm**<br>**Dydd Llun i ddydd Gwener (yn ystod tymor yr ysgol)** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **23/9/15** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **24/1/19** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Ydy. Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |